Hapus, iach a diogel: Maniffesto ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Cymru 2021

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Yr etholiad

Ym mis Mai 2021 bydd etholiad i'r Senedd.

Dyma pryd bydd pobl sy'n byw yng Nghymru yn pleidleisio i ddewis pwy maen nhw eisiau gweld yn rhedeg y wlad am y 5 mlynedd nesa.

Bydd grwpiau o wleidyddion, y pleidiau, yn ceisio perswadio pobl mai nhw yw'r bobl orau i bleidleisio drostyn nhw.

Bydd y blaid sy'n cael y nifer fwyaf o wleidyddion wedi'u hethol i'r Senedd yn gallu ffurfio Llywodraeth a rhedeg y wlad.

Yn ystod y misoedd nesa bydd y pleidiau'n ceisio perswadio pawb sy'n byw yng Nghymru i bleidleisio iddyn nhw.

Un o'r ffyrdd mae pleidiau yn gwneud hyn yw trwy gyhoeddi rhywbeth o'r enw maniffesto.

Mae maniffesto yn esbonio wrth bobl beth fyddai plaid yn gwneud tasen nhw'n cael digon o bleidleisiau i redeg y wlad.

Dim ond pethau mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i'w newid sy'n gallu cael eu cynnwys mewn maniffesto ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Mae hyn yn cynnwys gofal iechyd, addysg a thrafnidiaeth.

Mae rhai pethau, fel mewnfudo a ffoaduriaid, troseddu a'r heddlu, Credyd Cynhwysol a rheolau'r teledu, y radio a'r cyfryngau cymdeithasol, yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn San Steffan, Llundain.

Fel arfer mae maniffestos yn cael eu cyhoeddi ddechrau'r flwyddyn, cyn yr etholiad ym mis Mai.

Beth rydyn ni eisiau gweld mewn maniffestos

Ein gwaith ni yw gwneud yn siŵr bod y Llywodraeth bob amser yn meddwl am hawliau plant wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant.

Ac rydyn ni eisiau i'r holl bleidiau gwleidyddol sy'n gobeithio ennill yr etholiad flwyddyn nesa feddwl am hawliau plant wrth ysgrifennu eu maniffestos.

Ar y dudalen yma, rydyn ni wedi ysgrifennu ein syniadau.

Dyma'r pethau rydyn ni eisiau i bleidiau gwleidyddol eu rhoi yn eu maniffestos, er mwyn i ni fedru bod yn siŵr bydd y Llywodraeth nesa yn gwneud beth sydd orau i blant a phobl ifanc.

Gwybodaeth glir

Rydyn ni eisiau i bob plaid wleidyddol wneud eu maniffestos yn hawdd i bawb ddeall, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn debyg iawn i'r dudalen yma.

Mae'n bwysig iawn bod pleidiau'n dweud yn glir beth fyddan nhw'n gwneud ar gyfer yr etholiad nesa, oherwydd dyma fydd y tro cynta i bobl ifanc 16 ac 17 oed yng Nghymru gael pleidleisio.

Mae'r dudalen yma'n cynnwys y pethau rydyn ni'n gofyn i bleidiau eu rhoi yn eu maniffestos er mwyn gwneud gwahaniaeth positif i fywydau pobl ifanc.

Y prif bethau rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru wneud ar gyfer plant a phobl ifanc

Gweithred i leihau tlodi ymysg plant a chefnogaeth ar gyfer rhai sy'n byw mewn tlodi	Gwrando ar syniadau plant a phobl ifanc ar gyfer taclo newid hinsawdd a gweithredu arnyn nhw	Pobl ifanc dan 18 yn gallu teithio am ddim ar fysus a threnau
Mwy o wasanaethau ieuenctid a chwarae mae unrhyw un yn gallu eu defnyddio, am ddim	Gwneud e'n llawer haws i blant gael help a chymorth ar gyfer iechyd meddwl trwy ddull 'dim drws anghywir'	Gwneud yn siŵr bod gan bob plentyn y dyfeisiau digidol angenrheidiol i ddysgu gartre, a mynediad i'r rhyngrwyd
Gwneud yn siŵr bod hawliau pob plentyn yng Nghymru yn cael eu parchu yn yr ysgol	Adolygu'r system profi ar arholi mewn ysgolion Cymru ar gyfer plant 7-18 oed	Creu cyfreithiau newydd i ddiogelu hawliau plant sy'n cael addysg gartre
Rhoi cyfle i bob plentyn ifanc fynd i feithrinfa am ddim, i'w helpu nhw i ddysgu a datblygu	Stopio cwmnïau preifat rhag gwneud elw mewn cartrefi plant a gofal maeth	Gosod y Confensiwn Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn mewn cyfraith Cymru

Gwasanaethau a Chefnogaeth

Bysiau a threnau am ddim



Dylai pob plentyn o dan 18 oed fedru defnyddio'r bws a'r trên am ddim yng Nghymru.

Taclo newid hinsawdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod 'argyfwng hinsawdd' yng Nghymru. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithredu ar syniadau pobl ifanc i helpu i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd gan fod hyn yn fater pwysig iawn i blant a phobl ifanc Cymru.

Meysydd chwarae a chlybiau ieuenctid

- Dylai fod mwy o leoedd yng Nghymru i blant chwarae'n ddiogel am ddim. Bydden ni'n hoffi gweld lleoedd chwarae antur ar gael am ddim ar draws y wlad.
- Dylai pob person ifanc fedru treulio amser mewn clwb ieuenctid yn hawdd, a siarad â gweithiwr ieuenctid.

Dyfeisiau a band eang

- Does dim cyfrifiadur neu ddyfais ddigidol gan bob plentyn. Mae hyn wedi achosi pryder i lawer o deuluoedd, yn enwedig pan oedd yr ysgolion ar gau. Wrth i'r ysgolion agor eto, mae angen i blant fedru defnyddio cyfrifiadur neu dabled gartre o hyd, a bod â chysylltiad band eang. Mae angen hynny arnyn nhw ar gyfer ymchwil a gwaith ysgol, a rhag ofn bod rhaid i'r ysgol gau eto yn y dyfodol fel rhan o 'gyfnod clo' lleol.
- Rydyn ni eisiau i'r Llywodraeth nesa wneud yn siŵr bod gan bob disgybl oed ysgol uwchradd eu dyfais eu hun er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu dal i ddysgu gartre. Bydd angen help ychwanegol hefyd ar rai teuluoedd i gael cysylltiad â'r rhyngrwyd.

Arian a help ychwanegol

Rydyn ni'n pryderu bod teuluoedd llawer o blant yn methu fforddio'r holl bethau maen nhw angen. Mae angen i'r Llywodraeth newydd ddweud sut byddan nhw'n gwneud y pethau yma'n well:

Prydau ysgol am ddim

- Mae plant yn llwglyd oherwydd eu bod nhw'n methu cael cinio ysgol am ddim – mae terfyn ar y rhai sy'n cael cinio am ddim ar sail faint o arian mae eu rhieni'n ennill. Rydyn ni'n meddwl dylai'r terfyn fod yn uwch, fel bod mwy o blant yn gallu cael cinio am ddim.
- Dylai teuluoedd sy'n gofyn am help ariannol arall fel Credyd Cynhwysol gael eu holi yr un pryd ydyn nhw eisiau cael prydau ysgol am ddim; yr enw ar hyn yw 'cofrestru awtomatig'. Dylai hynny olygu bod rhaid i deulu lenwi un cais yn unig i gael yr holl gefnogaeth a help sydd angen.
- Dylai teuluoedd gael arian neu fwyd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau hefyd, nid dim ond pan fyddan nhw yn yr ysgolion. Mae rhai plant yn llwglyd yn ystod y gwyliau oherwydd bod eu teuluoedd yn methu fforddio'u bwydo nhw pan fyddan nhw ddim yn cael prydau ysgol am ddim.

Tamponau a chynyrch hylendid

Mae rhai pobl ifanc yn methu fforddio'r cynnyrch hylendid (tamponau a thywelion) sydd angen pan fyddan nhw'n cael mislif. Mae angen i Lywodraeth nesa Cymru sicrhau eu bod nhw'n gallu dal i dderbyn rhain am ddim a gwneud yn siŵr bod y rhai sydd ddim yn yr ysgol yn cael yr help sydd angen hefyd.

Gofalwyr Ifanc

Mae rhai plant yn gofalu am rywun arall yn eu teulu; maen nhw'n aml yn cael eu galw'n Ofalwyr Ifanc. Mae llawer o ofalwyr ifanc yn falch iawn eu bod nhw'n helpu i ofalu am aelodau o'r teulu, ond mae'n heriol iawn i rai hefyd. Mae angen i'r Llywodraeth nesa wneud yn siŵr bod gofalwyr ifanc yn cael digon o gefnogaeth eu hunain i ofalu am eu teulu a gwneud yn dda yn yr ysgol, a dilyn eu hobïau eu hunain tu allan i'r ysgol.

Cam-drin Rhywiol

Os yw plentyn neu berson ifanc wedi dioddef ymosodiad neu gam-drin rhywiol mae angen rhywle diogel a chroesawgar arnyn nhw i gael help meddygol a'u helpu nhw i gael adferiad ar ôl beth sydd wedi digwydd iddyn nhw. Dylai'r Llywodraeth nesa roi mwy o arian i'r gwasanaethau yma er mwyn iddyn nhw fedru bod yn fwy tebyg i fodel 'Tŷ Plentyn' Gwlad yr Iâ.

Addysg a Gofal Plant

Gofal plant am ddim

Gall mynd i feithrinfa neu warchodwr plant cyn cychwyn yn llawn amser yn yr ysgol helpu plant i ddysgu a datblygu. Ar hyn o bryd mae plant 3 a 4 oed yn gallu gwneud hynny am ddim os yw eu rhieni'n gweithio oriau penodol. Ond rydyn ni'n meddwl dylai pob plentyn fedru mynd am ddim; dydyn ni ddim yn meddwl dylai unrhyw blentyn golli cyfle oherwydd bod eu rhieni ddim yn gweithio nifer penodol o oriau.

Mwy o arian ar gyfer ysgolion

Bydd gan Gymru gwricwlwm newydd yn fuan, sy'n golygu bydd beth mae ysgolion yn dysgu a sut maen nhw'n ei ddysgu yn newid. Bydd sut mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dysgu yn newid hefyd. Ond ar hyn o bryd does dim digon o arian gan lawer o ysgolion. Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesa Cymru gynyddu'r arian sydd gan ysgolion, fel bod digon o athrawon ac athrawon cynorthwyol, a llawer o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant.

Cymorth ar gyfer plant gall cael eu gwahardd o'r ysgol

Mae rhai plant a phobl ifanc yn cael eu 'gwahardd' o'r ysgol. Mae hyn yn golygu bod plant yn cael eu gwrthod rhag dod i'r ysgol, naill ai am rai dyddiau neu'n barhaol. Rydyn ni'n pryderu bod mwy o blant yng Nghymru yn cael eu gwahardd oherwydd eu hymddygiad yn yr ysgol. Rydyn ni eisiau i ysgolion cefnogi plant sydd angen cymorth ychwanegol er mwyn sicrhau dydyn nhw ddim yn colli cyfle i gael addysg. Rydyn ni'n credu gall ysgolion gwneud hyn trwy 'ddull gweithredu ysgol gyfan', ble mae ysgolion yn deall holl anghenion iechyd plant.

Tynnu plant oddi ar y gofrestr

Weithiau mae ysgolion yn gofyn i deuluoedd beidio dod â'u plentyn i'r ysgol os ydyn nhw'n pryderu am eu presenoldeb neu eu graddau, oherwydd bod nhw'n meddwl bydd hynny'n gwneud i'r ysgol edrych yn wael. Yr enw am hyn yw 'tynnu oddi ar y gofrestr', ac mae'n gallu digwydd oherwydd bod ysgolion yn cael eu barnu yn ôl lefelau presenoldeb disgyblion a'u canlyniadau TGAU. Rydyn ni eisiau i'r Llywodraeth

newid sut maen nhw'n barnu ysgolion, fel bod ysgolion yn cael eu gwerthfawrogi am gynnwys pob plentyn a gwneud y penderfyniadau gorau i bob plentyn unigol.

Arholiadau

Yn ein harolwg o 10,000 o blant yn 2019, darganfyddom taw arholiadau oedd y pryder fwyaf ymysg plant 7-18 oed. Cododd effeithiau canslo arholiadau yn 2020 cwestiynau mawr ynglŷn â sut rydyn yn cydnabod a chefnogi gwaith caled, sgiliau a dealltwriaeth plant. Rydyn ni am weld y Llywodraeth Cymru nesaf yn newid y ffordd rydyn yn mesuro dysgu plant mewn ffordd mewn ffordd sy'n lleihau straen a chefnogi pob plentyn i lwyddo, yn hytrach na gadael plant gyda graddau is a hunanhyder is.

Dysgu yn y cartref

Pan fydd rhieni'n dewis addysgu eu plentyn gartre, dylen nhw orfod dweud wrth eu cyngor lleol, fel bod y cyngor yn gallu gweld y plentyn a gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw a'r teulu yr holl help angenrheidiol ar gyfer eu dysgu, a thrafod unrhyw gefnogaeth ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol. Mae hawl gan bob plentyn i gael addysg dda, p'un a ydyn nhw'n dysgu yn yr ysgol neu gartre. Mae angen i'r Llywodraeth nesa greu cyfraith newydd i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

Cadw'n ddiogel ar deithiau ysgol

Pan fydd ysgolion yn mynd â phlant ar daith, gan gynnwys teithiau i wledydd eraill, mae cyngor gan y Llywodraeth y dylen nhw ei ddilyn i helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Ond rydyn ni'n meddwl dylai'r rheolau fod yn gryfach, ac y dylai ysgolion orfod dilyn cyngor y Llywodraeth, i wneud yn siŵr bod holl blant Cymru mor ddiogel â phosib. Bydd angen iddyn nhw greu cyfraith newydd i wneud i hynny ddigwydd.

Cadw plant yn ddiogel yn ysgolion preifat

Mae rhai plant yng Nghymru yn mynd i ysgolion annibynnol. Mae ysgolion annibynnol yn dilyn rhai cyfreithiau sy'n wahanol i'r rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru. Does dim rhaid i athrawon mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg – sefydliad sy'n gwirio bod athrawon yn gweithio'n ddiogel gyda phlant. Mae hynny'n golygu bod plant mewn ysgolion annibynnol ddim yn cael cymaint o amddiffyniad â phlant mewn ysgolion eraill. Mae angen i'r Llywodraeth newid y gyfraith i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael eu hamddiffyn.

Iechyd a llesiant: Dim Drws Anghywir

Mae angen i wasanaethau sy'n helpu plant a phobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl gael digon o arian a staff i helpu gydag anawsterau emosiynol neu broblemau ymddygiad hefyd. Falle bod nhw ddim wedi'u nodi fel rhai sydd â phroblem iechyd meddwl, ond mae angen help a chefnogaeth arnyn nhw o hyd i wella ar ôl unrhyw bethau anodd sydd wedi digwydd iddyn nhw. A dylai plant fedru cael help ble bynnag maen nhw'n gofyn amdano fe. Yr enw rydyn ni'n rhoi i hynny yw 'dull dim drws anghywir', achos pa 'ddrws' bynnag rwyt ti'n curo i gael help, p'un ai dy Feddyg Teulu, dy ysgol, gwasanaeth ieuenctid neu rywle arall, dylet ti gael yr help rwyt ti angen.

Niwroamrywiaeth

Mae gan ryw 1 o bob 10 plentyn gyflwr niwro-amrywiol. Mae hynny'n cynnwys pethau fel awtistiaeth, Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio (ADHD), dyslecsia, dyspracsia ac anghenion iaith a lleferydd.

- Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru newid sut mae'r plant yma'n cael help, fel bod nhw ddim yn aros am fisoedd i gael apwyntiad tra bod pethau o bosib yn gwaethygu. Ddylai hynny ddim dibynnu ar feddyg na gweithiwr meddygol proffesiynol arall yn rhoi 'diagnosis' o gyflwr penodol iddyn nhw; dylen nhw gael yr help angenrheidiol beth bynnag yw'r achos neu'r rheswm.

Gallai hynny olygu bod arnyn nhw angen help gan wasanaethau iechyd, eu hysgol, neu weithiwr cymdeithasol, a dylai'r holl bobl hyn gydweithio i roi'r gofal angenrheidiol iddyn nhw.

Plant sy'n methu byw gatre gyda'u teuluoedd

Mwy o gefnogaeth gan Ymgynghorydd Personol

Mae angen i'r Llywodraeth nesa wneud yn siŵr bod plant sydd wedi bod mewn gofal yn cael y gefnogaeth angenrheidiol, gan rywun o'r enw Ymgynghorydd Personol, a hefyd gan eu cyngor lleol. Rydyn ni'n meddwl bod angen cyfraith newydd yng Nghymru i wneud yn siŵr bod hyn bob amser yn digwydd.

Cadw plant yn ddiogel, ble bynnag maen nhw'n byw

Rydyn ni wedi clywed am rai plant sydd wedi cael cais i fyw mewn tai sydd heb gael archwiliad i wneud yn siŵr bod nhw'n saff. Yr enw ar y rhain yw 'lleoliadau heb eu rheoleiddio'. Rydyn ni eisiau i'r Llywodraeth newid y rheolau i stopio hyn rhag digwydd, i gadw plant yn ddiogel.

Dim elw mewn gofal plant

Mae rhai cwmnïau yn ennill arian wrth ofalu am blant, er enghraifft mewn cartref plant. Pan fydd plentyn yn mynd i ofal y cyngor lleol, er enghraifft, yn aml mae rhaid i'r cyngor dalu cartref plant preifat i ofalu am y plentyn. Dydyn ni ddim yn cytuno y dylai cwmnïau fedru gwneud elw trwy ofalu am blant. Dylai'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod gwneud elw o wasanaethau gofal yn dod i ben. Bydd yn cymryd peth amser i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael heb rywle diogel i fyw ond mae angen gwneud rhywbeth nawr i gyflawni'r newid yma yn ystod y blynyddoedd sy'n dod.

Plant sydd yn y ddalfa

Mae nifer bach o blant yng Nghymru yn mynd i'r 'ddalfa' bob blwyddyn (math o garchar i rai o dan 18 oed) oherwydd eu bod nhw wedi torri'r gyfraith. Mae rhaid i ryw hanner ohonyn nhw fynd i leoedd yn Lloegr oherwydd bod dim digon o le yn y canolfannau sydd gennym ni eisoes yng Nghymru. Rydyn ni eisiau i'r Llywodraeth greu canolfannau diogel yng Nghymru, fel bod pobl ifanc yn gallu aros yn agosach at eu teuluoedd a chael yr addysg a'r help sy'n angenrheidiol i newid eu bywydau. Byddai canolfannau diogel hefyd yn llai tebyg i garchar ac yn fwy fel cartrefi plant gyda mwy o reolau. Mae gan Lywodraeth Cymru ddogfen o'r enw Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru, sy'n cyflwyno hyn fel nod; bydden ni'n hoffi gweld hyn yn digwydd a symud tuag at roi gwell cefnogaeth i'r plant yma a lleihau cyfraddau aildroseddu.

Eiriolaeth

Swydd newydd a gafodd ei chreu 20 mlynedd yn ôl yw Comisiynydd Plant Cymru, ar ôl i adroddiad o'r enw 'Ymchwiliad Waterhouse' ddangos bod yr oedolion oedd i fod yn gofalu amdanyn nhw ddim yn gwrando ar blant mewn gofal, a bod llawer o blant yn cael eu cam-drin pan oedden nhw mewn gofal. Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith ers hynny i wneud yn siŵr bod gan bob plentyn mewn gofal 'eiriolydd' – sef rhywun sy'n cefnogi plentyn i roi barn a dweud beth maen nhw'n meddwl pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

- Nawr rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesa Cymru wneud yn siŵr bod pobl ifanc sy'n cael unrhyw fath o ofal iechyd yn gallu cael eiriolydd os byddan nhw eisiau. Ac rydyn ni eisiau i bobl ifanc sy'n dymuno herio penderfyniadau am eu haddysg fedru defnyddio eiriolydd hefyd. Bydd y rhain yn cynnwys pobl ifanc ag anghenion ychwanegol neu bobl ifanc sy'n wynebu cael eu gwahardd o'r ysgol.

Amddiffyn hawliau plant

- Mae gan Gymru gyfraith sy'n golygu bod rhaid i'r Llywodraeth feddwl am sut mae eu penderfyniadau'n amddiffyn ac yn hybu hawliau plant, ond does dim rhaid i wasanaethau cyhoeddus eraill fel byrddau iechyd (y bobl sy'n gyfrifol am ysbytai, meddygfeydd ac ati) a chynghorau lleol wneud hyn. Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesa Cymru newid y gyfraith fel bod rhaid i bob gwasanaeth cyhoeddus amddiffyn a hybu hawliau plant yn eu holl waith.
- Llywodraeth Cymru sy'n rhoi ei swydd i'r Comisiynydd Plant, a Llywodraeth Cymru sy'n rhoi arian iddi redeg ei swyddfa, arian sy'n talu am ei holl staff, ei hadeilad, a'r gwaith mae hi a'r tîm yn ei wneud. Ond rhan o'i gwaith hefyd yw dweud wrth y Llywodraeth beth ddylen nhw wneud yn well, ac weithiau eu beirniadu nhw os dydyn nhw ddim yn ystyried hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Byddai'n well i'r Comisiynydd gael ei swydd a'r arian i redeg ei swyddfa gan y Senedd. Dyna sy'n digwydd fel arfer mewn gwledydd eraill ar draws y byd, ac mae'n golygu bod Comisiynwyr yn gallu codi llais yn rhydd a sefyll dros hawliau plant heb ofni bydd eu Llywodraeth yn mynd ã'u swydd neu eu harian oddi arnyn nhw.